

Rhifyn 59

Ffenomenau naturiol

Crwydro yn yr Ogofâu

Edrychwch ar y sioe sleidiau hon o ogofâu Dan yr Ogof, yng Nghwm Tawe. Heb edrych ar y tasgau, ceisiwch feddwl am deitl i bob sleid.

Sleid 1



Sleid 2



Sleid 3



Sleid 4



Sleid 5



Sleid 6



Sleid 1: Cafwyd y llun oddi ar wefan [Dan yr Ogof](#)

Sleid 2: Cafwyd y llun oddi ar wefan [Dan yr Ogof](#)

Sleid 3: Cafwyd y llun oddi ar wefan [Dan yr Ogof](#)

Sleid 4: Cafwyd y llun oddi ar wefan [Dan yr Ogof](#)

Sleid 5: Cafwyd y llun oddi ar wefan [Dan yr Ogof](#)

Eger Hafren

Ewch i'r wefan yma i weld y lluniau:

<https://www.severn-bore.co.uk/gallery.html>



Map: <https://www.shrewsburycanoehire.co.uk/product/severn-5-day-challenge/>

Beth yw Eger Hafren?

Severn Bore yw'r enw Saesneg. Ton fawr sy'n teithio i fyny afon Hafren pan fydd y llanw'n uchel yw hi. Weithiau, dydy'r don ddim yn fawr iawn, ond ambell waith, mae Eger pedair seren neu hyd yn oed Eger pum seren yn digwydd – dyna'r rhai mwyaf.

Pan fydd yr Eger yn uchel, mae llawer o bobl yn dod allan i wylïo ac mae syrffwyr yn hoffi syrffio arno.

Gwylïwch y fideo.

Fideo: <https://www.youtube.com/watch?v=O8TeguB3BYo>

Sarn y Cawr, Gogledd Iwerddon

Sarn y Cawr, Gogledd Iwerddon

Ble? Yn Swydd Antrim, ar arfordir gogleddol y wlad.

Beth? Tua 40,000 mil o golofnau basalt.

Pam? Ffurion nhw ar ôl ffrwydrad folcanig tua 50 i 60 miliwn o flynyddoedd yn ôl.

Sut? Oerodd y lafa, hollti a ffurfio colofnau.

Beth yw siâp y colofnau? Hecsagonau yw'r rhan fwyaf o'r colofnau, ond mae rhai sydd â phedwar, pump, saith neu wyth ochr.

Pa mor uchel ydyn nhw? Mae'r talaf tua 12 meter.

Ymweld? Gallwch chi ymweld â Sarn y Cawr. Mae caffi yno hefyd.

Chwedl Sarn y Cawr

Yn ôl y chwedl, penderfynodd Fionn mac Cumhaill, cawr o Ogledd Iwerddon, adeiladu sarn er mwyn mynd i ymladd â Benandonner, cawr o'r Alban, 25 milltir i ffwrdd. Adeiladodd Benandonner sarn hefyd, fel bod y ddau'n gallu cwrdd yn y canol.

Gwelodd Fionn fod Benandonner yn llawer mwy nag ef, felly rhedodd yn ôl i'r arfordir. Doedd e ddim eisiau ymladd ag e. Cafodd gwraig Fionn syniad. Gwisgodd hi Fionn fel baban. Pan welodd Benandonner y baban, roedd e'n meddwl – os yw'r baban mor fawr â hyn, rhaid bod Fionn, ei dad, yn anferth! Felly, penderfynodd redeg yn ôl i'r Alban a chwalu'r sarn fel bod Fionn yn methu rhedeg ar ei ôl.

Mae colofnau sy'n union yr un fath ar ynys Staffa yn yr Alban, felly efallai mai dyna pam mae'r chwedl wedi tyfu am y ddau gawr.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
basalt	craig arbennig	basalt
ffrwydrad	pan mae rhywbeth yn ffrwydro	explosion
hollti	torri	(to) split
sarn(au)	ffordd wedi'i chodi i groesi dŵr	causeway(s)
chwalu	torri, tynnu i lawr	(to) destroy, pull down

Ogofâu Dan yr Ogof

Ble mae ogofâu Dan yr Ogof?	Mae Dan yr Ogof ger Abercraf, yng Nghwm Tawe uchaf. Enw fferm oedd Dan yr Ogof yn wreiddiol. Mae afon Llynfell yn dod allan o'r graig ger y fferm. Mae'r ogofâu ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.
Beth yw hanes yr ogofâu?	Tommy a Jeff Morgan, dau frawd lleol, ddaeth o hyd i'r ogofâu yn 1912.
Beth welodd Tommy a Jeff Morgan?	Gwelon nhw stalagmidau a stalactidau. Doedd dim tortsh gyda nhw, dim ond canhwyllau. Ar ôl cerdded am dipyn, gwelon nhw fod llyn o dan y ddaear. Doedden nhw ddim yn gallu croesi'r llyn, felly aethon nhw allan o'r twnnel eto.
Sut daethon nhw o hyd i'r ffordd allan?	Roedden nhw wedi gwneud arwyddion yn y tywod ar y ffordd i mewn.
Beth wnaeth y brodyr Morgan wedyn?	Y tro nesaf, daeth y brodyr Morgan â dau gwrwgl gyda nhw i groesi'r llyn, ond nid dim ond un llyn groeson nhw, ond pedwar. Gwelon nhw lawer o dwneli, ceudyllau a siambr fawr. Wedyn, aeth y llwybr yn gyfyng iawn a doedden nhw ddim yn gallu mynd ymhellach.
Beth ddigwyddodd wedyn?	Yn 1963, aeth Eileen Davies, merch leol, drwy'r llwybr cyfyng a gweld bod llawer mwy o ogofâu. Mae dros 10 milltir o ogofâu i gyd.
Ydy hi'n bosibl ymweld â'r ogofâu?	Ydy, rydych chi'n gallu dilyn llwybr o gwmpas yr ogofâu. Dyma rai o'r pethau mwyaf arbennig sydd i'w gweld: • Rhaeadr wedi rhewi – mae'r graig yn edrych fel rhaeadr. Mae'n 7m o led ac yn 3m o uchder. • Piler Alabaster – mae stalagmid a stalactid wedi tyfu at ei gilydd i greu piler dros 2m o uchder. • Darn o facwn – mae'r stalactid yn edrych fel darn o facwn, oherwydd bod darnau o haearn yn y graig yn gwneud iddo edrych yn goch. • Dagr – mae'r graig yn edrych fel dagr. • Angel – yma, mae'r graig yn edrych fel angel. • Ogof yr Esgyrn – mae hon yn cynnwys esgyrn, gemwaith arian ac efydd a darnau o grochenwaith Rhufeinig.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
stalagmid(au)	colofn neu dwmpath sy'n codi o lawr ogof	stalagmite(s)

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
stalactid(au)	pigyn sy'n hongian o do ogof	stalactite(s)
cwrwgl (cyryglau)	cwch bach â gwaelod crwn - maen nhw'n cael eu defnyddio i bysgota ar afon Teifi ac afon Tywi	coracle(s)
ceudwll (ceudyllau)	twll mawr iawn - gallwch chi sefyll ynddo fe	cavern(s)
cyfyng	cul, heb lawer o le	narrow
dagr	darn o fetel miniog. Mae'n gallu cael ei ddefnyddio i ladd rhywun	dagger

Y Drws i Uffern, Turkmenistan

"Y drws i uffern", diffeithwch Karakum, Turkmenistan

Roedd drilio mawr yn digwydd yn ardal Karakum;
am olew ro'n nhw'n chwilio, ac yna'n sydyn – BWWWM!

Fe ddriliodd un o'r rigiau i geudwll mawr, llawn nwy.

I lawr â'r rig fel carreg; gollyngodd mwy a mwy
o'r nwyon cas a fflaidd, doedd dim byd nawr i'w wneud
ond tanio hwnnw'n sydyn, heb ddewis i'w ddadwneud.

Un naw saith un oedd hynny, a tân sydd yno o hyd.


Daw pobl draw i'w weld e o bedwar ban y byd.

Cewch fynd mewn jîp neu gamel liw dydd, neu'n wir liw nos
i weld diffeithdir anial yn troi yn ardal dlos.

Mae'n debyg na ddaw'r llosgi i ben am amser hir;
ymyrraeth dyn â natur yw'r broblem, dyna'r gwir.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
fflaidd	drewllyd, diflas	foul, disgusting
tanio	cynnau rhywbeth	(to) light (a fire)



Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
dadwneud	newid pethau i fod fel roedden nhw cyn i chi wneud rhywbeth	(to) undo
ymyrraeth	busnesa, torri ar draws rhywbeth	meddling

Ffynnon garegu Gogledd Swydd Efrog

 Caren	Oes rhywun wedi bod i weld y ffynnon 'ma yn Swydd Efrog, sy'n troi popeth yn garreg? Dw i'n credu mai'r 'Petrifying Well' yw'r enw Saesneg arni hi.
 Mathew	Bues i unwaith pan o'n i yn yr ysgol gynradd, falle. Mae'n eitha diddorol.
 Caren	Beth sy'n digwydd, felly?
 Mathew	Mae gwrthrychau'n cael eu hongian o dan y ffynnon. Wrth i'r dŵr ddiferu dros y gwrthrychau, maen nhw'n caregu.
 Caren	Sut mae hynny'n digwydd?
 Jo	Dw i wedi clywed bod y dŵr yn dod o lyn tanddaearol . Mae'n dod i'r wyneb ac yn hydoddi mwynau ar y ffordd. Wedyn, mae'n arllwys i lawr eto ac mae'n ffurfio darnau o graig.
 Siwan	Ie, calsiwm carbonad a sodiwm swlffad yw'r mwynau, dw i'n meddwl. Does dim unrhyw ddŵr yn Ewrop sydd â mwy o fwynau, mae'n debyg.

 Jo	Mae llawer o ddŵr yn arllwys i lawr – 3,000 litr yr awr.
 Caren	Hyd yn oed os ydyn ni'n cael haf sych?
 Mathew	Does dim gwahaniaeth sut mae'r tywydd, achos bod y llyn tanddaearol yn enfawr.
 Caren	Waw! Beth am y broses o garegu 'te? Faint o amser mae'n ei gymryd?
 Siwan	Ddim yn hir – mae'n cymryd rhwng tri a phum mis i garegu tedi bach. Maen nhw'n eu gwerthu nhw yn y siop.
 Caren	O, bechod! Mae'r broses yn swnio'n debyg i broses creu stalactidau, felly?
 Siwan	Ydy, ond ei bod hi'n llawer cyflymach achos bod cymaint o fwynau yn y dŵr. Mae'n cymryd amser hir iawn i stalactidau 'dyfu'.

 Mathew	Dw i'n cofio gweld pethau o oes Victoria yno – hetiau dynion a menywod. Maen nhw'n rhan o'r graig erbyn hyn.
 Jo	Mae'r amgueddfa'n werth ei gweld hefyd. Maen nhw'n arddangos pethau fel bag llaw Agatha Christie ac un o hetiau John Wayne, yr actor.
 Mathew	Yn oes Victoria, mae'n debyg eu bod nhw'n arfer hongian pethau fel wigiau ac anifeiliaid marw – ych a fi!
 Caren	Mae'n swnio'n ddiddorol dros ben!
 Mathew	Mae'r lle'n denu tipyn o ymwelwyr, dw i'n meddwl, ond mae'n bosibl cael syniad eitha da drwy wyllo ambell fideo ar y we a bod yn onest.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
caregu	troi'n gareg	(to) petrify
diferu	dafnau bach o ddŵr yn syrthio	(to) drip

Goleuni'r Gogledd

Fideo: <https://www.youtube.com/watch?v=fVsONlc3OUY>

Beth sy'n achosi Goleuni'r Gogledd?	Er mwyn deall beth sy'n achosi Goleuni'r Gogledd, mae angen deall beth sy'n digwydd yn yr haul, a hefyd deall am faes magnetig y Ddaear.
Yr haul	Pelen o hydrogen a nwyon eraill yw'r haul. Mae tua 93 miliwn o filltiroedd, neu 150 miliwn o gilometrau, o'r Ddaear. Yn yr haul, mae atomau hydrogen yn bwrw yn erbyn ei gilydd ac yn creu ymasiad niwclear. Weithiau, mae gronynnau wedi'u gwefru yn saethu allan o'r haul ac yn creu fflach solar. Wedyn, mae'r gronynnau'n teithio drwy'r gofod am ddau ddiwrnod, tua 93 miliwn o filltiroedd, nes cyrraedd y Ddaear.
Maes magnetig y Ddaear	Mae maes magnetig yn amddiffyn y Ddaear, ond mae'n llai cryf ym mhegwn y gogledd a phegwn y de. Felly, mae rhai o'r electronau sy'n dod o'r haul yn llwyddo i gyrraedd atmosffer y Ddaear. Wrth wneud hyn, maen nhw'n gwrthdaro â'r atomau ocsigen a nitrogen sydd yn atmosffer y Ddaear. Mae'r atomau hyn yn cynhyrfu, ac maen nhw'n rhyddhau ynni ar ffurf goleuni.
Sut mae'r Goleuni'n edrych?	Mae'r Goleuni'n edrych fel llenni neu donnau, oherwydd eu bod nhw'n dilyn y llinellau grym ym maes magnetig y Ddaear.
Pam mae lliwiau gwahanol i Oleuni'r Gogledd?	Nwyon gwahanol sy'n rhoi'r lliwiau gwahanol. • Ocsigen – mae'n rhoi golau gwyrdd, y lliw mwyaf cyffredin; • Nitrogen – mae'n rhoi golau glas, coch neu borffor.
Ble mae'r lleoedd gorau i weld Goleuni'r Gogledd?	• Alaska neu ogledd Canada; • Gwledydd Llychlyn; • Gogledd yr Alban, weithiau i lawr i ogledd Lloegr. Maen nhw'n cael eu gweld yng ngogledd a chanolbarth Cymru os yw'r amodau'n iawn. • Mae'n bosibl gweld Goleuni'r Gogledd yr holl ffordd i lawr i'r cyhydedd, ond mae hynny'n eithaf anarferol. • Rhaid mynd ymhell o ddinasoedd neu drefi mawr, neu bydd llygredd golau'n broblem. Felly, mannau anghysbell sydd orau.
Pryd mae Goleuni'r Gogledd ar ei orau?	• Yn ystod y gaeaf, hefyd misoedd Medi, Hydref, Mawrth ac Ebrill; • Mae mwy o olau ddau ddiwrnod ar ôl fflachiau solar mawr.

Pa amodau tywydd sydd orau?	- Mae angen noson glir, ddigwmwl. - Os yw'r lleuad yn llawn, mae'n fwy anodd gweld y goleuni.
Beth am Oleuni'r De?	Mae goleuni tebyg i'w gweld yn yr Antarctig – Aurora Australis yw'r enw arno.

Chwedloniaeth am Oleuni'r Gogledd

Roedd yr Inuit yn meddwl mai ysbryd eu hynafiaid yn dawnsio, neu fabanod oedd wedi marw, oedd Goleuni'r Gogledd.

Roedd y Llychlynwyr yn credu mai pont o dân i'r nefoedd wedi'i chreu gan y duwiau oedd y goleuni.

Mae stori o'r Ffindir yn dweud mai cynffon llwynog yr Arctig wrth fwrw eira oddi ar y mynyddoedd sy'n creu'r Goleuni.

Roedd yr Albanwyr yn meddwl mai dawnsywyr, neu ryfelwyr yn ymladd, neu angylion yn syrthio i'r Ddaear oedd y Goleuni.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
ymasiad niwclear	pan fydd niwclysau atomig yn dod at ei gilydd i ffurfio niwclews trymach, a rhyddhau ynni	nuclear fusion
groynyn(nau)	darn bach, bach o rywbeth	particle(s)
gwefru	rhoi trydan i rywbeth	(to) charge
fflach solar	goleuni disglair sy'n dod o'r haul	solar flare
gwledydd Llychlyn	Norwy, Sweden a'r Ffindir	Scandinavian countries
anghysbell	pell i ffwrdd, o'r neilltu	remote
amodau tywydd	sut mae'r tywydd	weather conditions
hynafiad (hynafiaid)	un o'r hen bobl	ancestor(s)

Golau glas disglair

Ar arfordir Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd bod cymylau o blancion yn creu golau glas disglair.

Gwylwch y fideo yma, ac edrychwch ar y lluniau yn y linc oddi tano.

Fideo: <https://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/stunning-pictures-capture-glowing-plankton-14933885>

Cyn darllen y darn isod, trafodwch:

- Beth sy'n digwydd yn y fideo? / Beth sy'n digwydd yn y lluniau?
- Beth sy'n achosi hyn, yn eich barn chi?

Bioymoleuedd

Miliynau o blancion sy'n creu'r golau glas disglair. Mae'r fideo gan Kris Williams o Fiwmares yn dangos hyn ym Mhenmon, Ynys Môn. Mae'r lluniau o draeth Aberafan yn dangos hyn.

Beth yw bioymoleuedd?

Mae edrych ar ddarnau o'r gair yn ein helpu:

bio = bywyd

ym = 'ei hun', fel sydd yn 'ymolchi' ac 'ymddangos'

oleu = golau (mae 'lleu' hefyd mewn geiriau fel 'lleuad' a'r enw 'Lleu')

Dydy'r plancton ddim yn goleuo drwy'r amser. Yn ystod y dydd, mae'n edrych yn frowngoch, ychydig fel rhwd, ond yn ystod y nos, pan fydd y dŵr yn cael ei symud mewn rhyw ffordd, mae'n goleuo.

Mae'r plancton yn cynhyrchu golau er mwyn ei amddiffyn ei hun; mae'n ceisio denu ysglyfaethwyr at beth bynnag sy'n ceisio ei fwyta. Mae'n defnyddio cemegyn o'r enw lwsifferin i gynhyrchu'r golau.

Pryd mae bioymoleuedd yn digwydd?

Fel arfer, mae'n digwydd yn y trofannau, lle mae'r dŵr bob amser yn gynnes. Ond, gyda newid hinsawdd, wrth i dymheredd y dŵr godi, mae'r ffenomen naturiol hon i'w gweld hefyd ar lan y môr yng Nghymru.

Yn ystod cyfnod poeth iawn, fel digwyddodd yn haf 2018, mae dŵr cynnes y môr yn lle delfrydol i'r plancton dyfu. Mae'r diwrnodau heulog hir yn rhoi'r egni sydd ei angen er mwyn goleuo yn y nos.

Felly, mae'n debygol iawn y byddwn ni'n gweld mwy a mwy o olau glas disglair y plancton yng Nghymru yn y dyfodol!

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
biomoleuedd	golau sy'n cael ei gynhyrchu gan bethau byw fel plancton, pysgod neu bryfed tân	bioluminescence
ysglyfaethwr (ysglyfaethwyr)	anifail sy'n bwyta anifail arall, anifail ysglyfaethus	predator(s)
rhwd	haen goch sy'n ffurfio ar haearn oherwydd ocsidiad	rust
trofannau	yr ardal rhwng Trofan Cancr a Throfan Capricorn	tropics

A ddylen ni fod yn denu twristiaid i weld rhyfeddodau naturiol?

Darllenwch y darn hwn, sy'n dadlau yn erbyn denu twristiaid i weld rhyfeddodau naturiol.

Rhaid cadw twristiaid draw o ryfeddodau naturiol

Mae perygl gwirioneddol o ddenu twristiaid i weld rhyfeddodau naturiol. Y perygl hwnnw yw y byddwn yn dinistrio'r union bethau rydyn ni eisiau rhyfeddu atyn nhw. Gyda mwy a mwy o dwristiaid yn chwilio am brofiadau unigryw, bythgofiadwy, gallai'r pwysau fynd yn drech na'r rhyfeddodau naturiol.

Mae'r 'rhestr bwced' yn boblogaidd iawn – rhestr o bethau y mae person eisiau eu gweld neu gael profiad ohonyn nhw cyn marw – cyn 'cicio'r bwced', a chyfieithu idiom Saesneg. Er bod y rhestri hyn yn aml yn cynnwys adeiladau ac amgueddfeydd, mae rhyfeddodau naturiol hefyd yn amlwg iawn arnyn nhw.

Mae gan rai pobl ym mhedwar ban y byd fwy a mwy o arian i'w wario ar deithio. Felly, y duedd yw chwilio am fannau mwy anghysbell a diarffordd i fynd iddyn nhw – mannau a fydd yn creu argraff ar deithwyr eraill.

Ond dydy'r rhyfeddod naturiol ei hun ddim yn ddigon, wrth gwrs, gan fod angen seilwaith hefyd. Rhaid cael ffyrdd da i gyrraedd y rhyfeddod, meysydd parcio, gwesty neu gaffi, siop sy'n gwerthu sothach (fel arfer), ac ati, ac ati. Felly, mae'r ardal o amgylch y rhyfeddod naturiol yn cael ei ddifetha – am byth.

Ystyriwch y ffaith hon: yn 2015, ymwelodd 851,314 o bobl â Sarn y Cawr, yng Ngogledd Iwerddon. Dyna dros wyth gan mil o bobl yn cerdded dros y tirlun arbennig hwn. Ydy hyn

Ond does dim rhaid teithio mewn gwirionedd. Gyda'r datblygiadau technolegol diweddaraf, mae'n bosibl cael profiad o ryfeddodau naturiol heb adael eich cartref. Dydw i ddim yn sôn am wyllo fideo, ond yn hytrach rhith-wirionedd. Mae rhai apiau i'w cael nawr, er enghraifft, rhai Google Earth, sy'n gallu mynd â chi ar amrantiad i weld rhaeadrau uchaf y byd, 'Angel Falls' yn Venezuela. Drwy rith-wirionedd 360°, byddwch chi'n teimlo fel petaech chi'n hedfan mewn hofrennydd i'w weld. Felly, fyddwch chi ddim yn tarfu ar y jyngl a'r holl rywogaethau prin sy'n byw yno.

Geirfa

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
mynd yn drech na	mynd yn ormod i	(to) become too much for
diarffordd	pell o bob man	remote

Cymraeg	Disgrifiad	Saesneg
seilwaith	pethau fel ffyrdd, pontydd, ac ati	infrastructure
cynaliadwy	yn gallu cael ei gadw i fynd	sustainable
yn hytrach	yn lle hynny	rather, instead
ar amrantiad	yn gyflym iawn	in a twinkling of an eye
rhith-wirionedd	gweld rhywbeth fel petai'n go iawn, drwy ben-set	virtual reality
rhywogaethau	mathau o greaduriaid byw	species
cydwybod	y gallu i weld y gwahaniaeth rhwng da a drwg	conscience